# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Robert Ll Jones |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Mr Gordon Warren |
| | **Aelod Annibynnol** |
| | Dr Haydn Edwards |
| **WRTH LAW :** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr G O Jones, R Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Dr Haydn Edwards yn Gadeirydd y cyfarfod hwn yn unig.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Roedd y Cynghorydd G O Jones wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 5 ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Fe ddatganodd Dr H Edwards hefyd ddiddordeb personol yn Eitem 5.

**3 COFNODION Y CYFARFOD**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2017.

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y posibilrwydd y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**5 TYNNU RHESTR FER O YMGEISWYR AR GYFER RÔL AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU A PHENDERFYNU AR Y BROSES**

Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro'r broses ddethol statudol ar gyer penodi i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau.

Trafododd y Panel y ceisiadau a dderbyniwyd yn fanwl a hynny'n unol â'r broses ar gyfer tynnu rhestr fer a'r meini prawf a oedd wedi ei hamlinellu yn yr adroddiad i'r Panel.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeiswyr a roddwyd ar y rhestr fer yn cale eu cyfweld ar 27 Tachwedd, 2017 am 3.00 p.m.**

**DR HAYDN EDWARDS**
**CADEIRYDD**